# > Canllawiau statudol i'r heddlu ar sicrhau'r dystiolaeth orau mewn materion marwolaeth ac anafiadau difrifol

## Rhagair

Pan fydd person yn marw neu'n cael ei anafu'n ddifrifol ar ôl dod i gysylltiad â'r heddlu, mae'n her i hyder y cyhoedd mewn plismona. Mae'n hanfodol fod y ffeithiau sy'n ymwneud â digwyddiadau o'r fath yn cael eu hymchwilio'n llawn ac yn annibynnol er mwyn cadw, a hyd yn oed wella hyder y cyhoedd.

Mae hwn yn faes cymhleth oherwydd rôl, pwerau a disgwyliadau'r cyhoedd o'r gwasanaeth heddlu. Rydym yn edrych at yr heddlu i ddiogelu'r cyhoedd a mynd i'r afael â throseddau – a disgwyliwn iddynt ddefnyddio'r pwerau sydd eu hangen i wneud hynny. Mewn rhai amgylchiadau mae swyddogion wedi'u grymuso i ddefnyddio grym, gan gynnwys grym llethol i amddiffyn eraill neu eu hunain rhag niwed; i gadw unigolion yn erbyn eu hewyllys; neu i yrru cerbydau y tu allan i'r rheolau arferol sy'n berthnasol i ddefnyddwyr eraill y ffordd. Mae hefyd yn natur plismona y bydd swyddogion heddlu yn dod i gysylltiad yn rheolaidd â rhai o aelodau cymdeithas sy'n fwyaf agored i niwed a gall eu gweithredoedd ddylanwadu ar yr hyn y mae'r person hwnnw'n ei wneud nesaf.

Weithiau bydd marwolaethau yn digwydd oherwydd bod pethau wedi mynd o chwith neu oherwydd, o edrych yn ôl, efallai y byddai dull gwahanol wedi bod yn well. Mewn amgylchiadau o'r fath, rôl SAYH yw nodi lle gall yr heddlu ddysgu o gamgymeriadau trasig a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod yr heddlu'n cael eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd, lle mae'r dystiolaeth yn barnu bod hynny'n angenrheidiol.

Gall marwolaethau neu anafiadau difrifol yn ystod neu ar ôl cyswllt â'r heddlu godi mewn llawer o amgylchiadau gwahanol ac mae'r egwyddorion yn y canllaw hwn yn berthnasol i bob un ohonynt – nid dim ond y cymwysiadau mwyaf amlwg o rym marwol. Ein safbwynt sylfaenol o hyd yw y bydd swyddogion heddlu a staff sy'n ymwneud â digwyddiadau o'r fath yn parhau i gael eu trin fel tystion, heblaw a hyd nes y bydd y dystiolaeth sydd ar gael yn mynnu fel arall.

Nod y canllawiau hyn yw helpu SAYH i sicrhau'r dystiolaeth orau i lywio ein hymchwiliadau, i hybu hyder y cyhoedd yng nghywirdeb y broses ac i amddiffyn y swyddogion dan sylw rhag cyhuddiadau o gydgynllwynio. Mae'n ymdrin â'r cyfnod tyngedfennol yn syth ar ôl marwolaeth neu anaf difrifol, pan mae'n hollbwysig bod camau priodol yn cael eu cymryd i sefydlu'n llawn y ffeithiau sy'n ymwneud â'r digwyddiad ac i sicrhau y manteisir ar unrhyw gyfleoedd i ddysgu gwersi.

Nid yw'r canllawiau hyn wedi'u bwriadu i atal yr heddlu rhag cyflawni eu rôl hollbwysig wrth amddiffyn y cyhoedd ac ymdrin â throseddau. Gwahanu swyddogion hyd nes y byddant wedi rhoi eu hadroddiadau cychwynnol yw'r opsiwn a ffefrir gennym o hyd ond rydym yn cydnabod bod yn rhaid i uwch swyddogion gadw lefel o ddisgresiwn gweithredol, yn enwedig os oes bygythiad parhaus i ddiogelwch y cyhoedd. Lle nad yw gwahaniad yn cael ei gymhwyso yna mae'n rhaid cofnodi rhesymeg cyn gynted â'i bod yn ymarferol ac mae'n rhaid cymryd camau priodol i gyflawni nodau'r canllaw hwn - gan hybu hyder y cyhoedd yng nghywirdeb y broses.
Ni ddylai cymhwyso'r canllawiau chwaith atal mynd i'r afael ag anghenion lles swyddogion a staff na'u mynediad at gyngor cyfreithiol, cymdeithas staff neu gyngor meddygol.

Gall gweithredoedd plismona cyfreithlon arwain at anaf neu golli bywyd, ond mae'n hanfodol mewn cymdeithas sy'n cael ei phlismona drwy gydsyniad, nad yw'r digwyddiadau hyn yn cael eu normaleiddio a bod y broses ar gyfer ymchwilio i'r hyn a ddigwyddodd yn dryloyw ac ystyrlon. Ymchwilio effeithiol sy'n ceisio dysgu ac sy'n sicrhau atebolrwydd er budd pennaf y rhai mewn profedigaeth, y cyhoedd ehangach a'r heddlu eu hunain.

## I bwy mae'r canllawiau'n berthnasol

1. Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn o dan adran 22 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 ac maent yn berthnasol i bob un o 43 o heddluoedd y Swyddfa Gartref yng Nghymru a Lloegr. Mae'n rhaid i gyrff plismona lleol, prif swyddogion, swyddogion heddlu, cwnstabliaid gwirfoddol a staff heddlu sy'n gweithio yn yr heddluoedd hynny i gyd roi sylw i'r canllawiau. Mae hefyd yn berthnasol i'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol a'r asiantaethau hynny a heddluoedd nad ydynt yn ymwneud â'r Swyddfa Gartref sydd wedi ymrwymo i gytundebau â Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (SAYH) o dan adrannau 26 neu 26BA o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, yn amodol ar unrhyw ddarpariaethau penodol a gynhwysir o fewn y cytundebau hynny. Dylid ddarllen bod unrhyw gyfeiriadau at yr heddlu neu swyddogion yr heddlu yr un mor berthnasol i'r asiantaethau hyn a'u staff.

2. Os nad yw'r bobl a restrir uchod yn dilyn y canllawiau, mae angen iddynt gael sail resymegol gadarn dros wyro oddi wrthynt. Dylid cofnodi'r rhesymeg hon yn gywir cyn gynted ag y mae'n ymarferol i wneud hynny. Gall unrhyw fethiant i ddilyn y canllawiau a sail resymegol yr unigolyn dros beidio â gwneud hynny ddod o dan graffu mewn unrhyw achos yn y dyfodol lle mae'r broses casglu tystiolaeth yn berthnasol (er enghraifft cwest neu achosion disgyblu).

3. Nod y canllawiau statudol hyn yw gwneud pawb y mae’n berthnasol iddynt yn gwbl ymwybodol o’u dyletswyddau a’u cyfrifoldebau o ran cyflawni’r ymchwiliad mwyaf effeithiol i achos marwolaeth neu anaf difrifol. Mae dyletswydd statudol glir eisoes ar yr heddlu i atgyfeirio pob mater marwolaeth neu anaf difrifol (DSI) i SAYH yn ddi-oed ac mewn llawer o achosion bydd angen i’r SAYH gynnal ymchwiliad annibynnol.[1] Fodd bynnag, mae’r canllaw hwn yn berthnasol i SAYH o'r eiliad y daw mater DSI i sylw'r heddlu. Os gwneir cwyn gan un o’r cyhoedd neu fater ymddygiad a nodir gan yr awdurdod priodol yn ystod y camau cychwynnol o ymdrin â mater DSI, dylid parhau i ddilyn y canllawiau hyn.

## Diffiniad o fater DSI

Mae mater DSI yn golygu unrhyw amgylchiadau (heblaw bod yr amgylchiadau yn destun cwyn neu wedi bod yn destun cwyn neu’n gyfystyr â mater ymddygiad) lle mae person wedi marw neu wedi cael anaf difrifol, neu o ganlyniad iddynt, ac:

- ar adeg marwolaeth neu anaf difrifol roedd yr unigolyn wedi'i arestio gan unigolyn sy'n gwasanaethu â'r heddlu ac nad oedd wedi'i ryddhau neu fel arall wedi'i gadw yng ngofal unigolyn sy'n gwasanaethu â'r heddlu; neu
- ar neu cyn adeg y farwolaeth neu anaf difrifol roedd yr unigolyn wedi dod i gysylltiad o unrhyw fath – boed yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol – ag unigolyn sy’n gwasanaethu â’r heddlu a oedd yn gweithredu i gyflawni ei ddyletswyddau ac mae arwydd y gallai’r cyswllt fod wedi achosi – boed yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol – neu wedi cyfrannu at y farwolaeth neu anaf difrifol. Fodd bynnag, nid yw'r is-gategori hwn yn cynnwys cyswllt a gafodd unigolyn a ddioddefodd y farwolaeth neu anaf difrifol tra roedd ef neu hi yn cyflawni ei ddyletswyddau fel unigolyn sy'n gwasanaethu â'r heddlu.

Adran 12, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

Mae ‘anaf difrifol’ yn golygu toriad, toriad dwfn, rhwygiad dwfn neu anaf sy’n achosi niwed i organ fewnol neu amhariad ar unrhyw weithrediad corfforol.

## Dyletswyddau i gael a chadw tystiolaeth

4. Mae gan brif swyddogion ddyletswydd statudol glir i gael a chadw tystiolaeth yn ymwneud â materion DSI.

[1] Er enghraifft, lle mae’r anaf neu farwolaeth yn digwydd tra bod yr unigolyn yn cael ei gadw gan yr heddlu, neu lle mae arwydd y gallai cyswllt yr heddlu fod wedi cyfrannu at y farwolaeth neu’r anaf difrifol.

Lle mae prif swyddog yn dod yn ymwybodol o fater DSI sy'n ymwneud ag unigolyn sydd o dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth, mae'n rhaid i'r prif swyddog gymryd pob cam sy'n ymddangos yn briodol at ddibenion Rhan 2 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu i gael a chadw tystiolaeth yn ymwneud â mater DSI.

Mae'n rhaid cyflawni'r ddyletswydd hon cyn gynted ag y mae'n ymarferol ar ôl i'r prif swyddog ddod yn ymwybodol o'r mater. Dylai'r prif swyddog barhau i gymryd y camau y mae'n eu hystyried yn briodol i gael a chadw tystiolaeth nes bod y prif swyddog yn credu nad oes angen gwneud hynny rhagor.

Mae'n rhaid i'r prif swyddog gymryd unrhyw gamau a gyfarwyddir gan SAYH neu gorff plismona lleol i gael neu gadw tystiolaeth.

Paragraff 14B, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*

5. Wrth ystyried y ddyletswydd statudol honno, mae gan brif swyddogion gyfrifoldeb i sicrhau bod pawb sydd o dan eu cyfeiriad a'u rheolaeth yn ymwybodol o'r egwyddorion a nodir yn y canllawiau hyn, i sicrhau bod gweithdrefnau a systemau cadarn yn eu lle i roi'r egwyddorion hynny ar waith a bod swyddogion perthnasol a staff yn cael eu hyfforddi ar sut i weithredu yn unol â'r canllawiau hyn. Nid yw'r canllawiau hyn yn nodi pwy yn union ddylai gymryd camau penodol, mae hyn i'w benderfynu gan y rhai sy'n bresennol mewn digwyddiad neu'n ymwybodol o ddigwyddiad.

## Nodi a chadw'r holl dystiolaeth a golygfeydd a allai fod yn berthnasol

6. Mae'n hanfodol fod sylw a gofal yn cael eu rhoi i'r gwaith o gadw'r holl dystiolaeth a allai fod yn berthnasol cyn gynted ag y mae'n ymarferol. Gall "tystiolaeth" gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, unrhyw wybodaeth a dynnwyd o gyfrifon personol, dogfen, neu wrthrych perthnasol, y gellir o bosibl ei defnyddio i sefydlu ffeithiau mewn ymchwiliad. Mae'n bosibl na fydd perthnasedd peth tystiolaeth i ymchwiliad yn amlwg ar unwaith, felly dylid cadw unrhyw beth y mae unigolyn yn ystyried yn rhesymol sydd â'r potensial i gynorthwyo'r ymchwiliad.

7. Mae gan bawb yng ngwasanaeth yr heddlu gyfrifoldeb i ddod ag unrhyw dystiolaeth bosibl i sylw'r ymchwiliad drwy gydol oes yr ymchwiliad.

8. O'r adeg y daw'r heddlu'n ymwybodol o fater DSI, mae ganddynt gyfrifoldeb i sicrhau nad yw tystiolaeth yn cael ei cholli na'i chyfaddawdu mewn unrhyw ffordd. Gall hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, sefydlu perimedr i reoli a diogelu unrhyw le a chynnal cofnod cywir o'r lle sy'n cofnodi manylion pawb sy'n dod i mewn ac yn gadael, gan ddiogelu samplau o dystiolaeth fforensig

rhag difrod neu halogiad ac atal trosysgrifo deunydd gweledol neu sain.

9. Er bod yn rhaid i'r heddlu weithredu i gadw a rheoli tystiolaeth o'r fath, ac eithrio pan mae paragraff 10 yn berthnasol, ni ddylent gymryd unrhyw gamau eraill mewn perthynas â'i hadennill, ei dileu neu ei dadansoddi heb gytundeb penodol SAYH.

10. Cydnabyddir o dan yr amgylchiadau canlynol y gallai fod yn well gweithredu ar unwaith a heb aros am gymeradwyaeth SAYH:

- lle mae angen tynnu neu atafaelu tystiolaeth ar unwaith i atal ei cholli neu ddirywiad (er enghraifft, lle gallai'r tywydd amharu ar dystiolaeth fforensig);
- lle mae angen cymryd camau i ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed (er enghraifft, pan fydd gwn yn cael ei osod o fewn cyrraedd y cyhoedd).

11. Os gwneir penderfyniad yn unol â pharagraff 10 uchod, mae'n rhaid i fanylion unrhyw gamau a gymerwyd mewn perthynas â thystiolaeth, a'r cyfiawnhad dros wneud hynny, gael eu dogfennu'n glir gan y penderfynwr.

## Adnabod yr holl dystion nad ydynt yn blismona

12. Mae cyfeiriadau at "dystion" yn yr adran hon yn cyfeirio at y rhai nad ydynt wedi chwarae rhan blismona yn y digwyddiad er enghraifft rhai o'r cyhoedd, staff gwasanaethau brys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

13. Bydd unrhyw un sydd wedi bod yn dyst (yn weledol neu fel arall) i unrhyw ran o'r farwolaeth neu anaf difrifol (neu ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig ag ef) yn dyst posibl. Mae'n hanfodol fod yr heddlu'n gweithredu ar unwaith i helpu i sicrhau na chaiff tystion eu colli a bydd eu tystiolaeth ar gael i'r ymchwiliad. Er mwyn cyflawni hyn, tra'n aros am gyfraniad y SAYH, dylai'r heddlu geisio cael enwau a manylion cyswllt yr holl dystion posibl ynghyd â disgrifiad byr o natur eu tystiolaeth. Dylid cynghori tystion hefyd i beidio â thrafod y digwyddiad dan sylw.

14. Ceir datganiadau manwl yn ystod yr ymchwiliad dilynol. Fodd bynnag, dylai'r heddlu gael a nodi'r wybodaeth sylfaenol ganlynol am natur yr wybodaeth y gall y tyst ei rhoi:
- os yw ef/hi wedi bod yn dyst i'r digwyddiad cyfan neu ran ohono, neu ddigwyddiad cysylltiedig;
- disgrifiad cryno o'r hyn y mae ef/hi wedi arsylwi arno;
- unrhyw berthynas ag unrhyw un o'r unigolion sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad;

- disgrifiadau o’r unigolion y cyfeirir atynt, ynghyd â’r ffactorau i’w hystyried wrth asesu’r dystiolaeth adnabod honno (faint o amser dan arsylwi, pellter, rhwystrau ac ati.[2]).

Dylid nodi'n ofalus hefyd unrhyw sylwadau am y tyst a allai fod yn berthnasol.

## Nodi ac ymdrin â thystion plismona allweddol

15. Dylai'r heddlu nodi'r tystion plismona allweddol i'r farwolaeth neu anaf difrifol ar unwaith.

16. At ddiben y canllaw hwn mae **tyst plismona** yn:

- swyddog yr heddlu;
- cwnstabl arbennig o dan gyfarwyddyd a rheolaeth prif swyddog;
- aelod o staff heddlu (fydd yn cynnwys y rheini â phwerau dynodedig o dan adran 38(2) Deddf Diwygio'r Heddlu 2002: swyddogion cymorth cymunedol, swyddogion dalfa, swyddogion ymchwiliol a swyddogion hebrwng);
- aelod o staff wedi'i gontractio allan;
- unigolyn sy'n gwasanaethu â'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol.

### Tystion plismona allweddol

17. Tyst plismona allweddol yw unrhyw un o’r categorïau uchod sydd wedi ymwneud yn sylweddol a/neu sydd wedi bod yn dyst, neu sy’n honni ei fod wedi gweld, yn weledol neu fel arall, farwolaeth neu anaf difrifol i gyd neu ran ohonynt, neu ddigwyddiadau sy’n gysylltiedig yn agos ag ef. Gall hyn gynnwys pobl sy'n ymwneud yn anuniongyrchol, er enghraifft person sy'n delio â galwadau neu gynghorwr drylliau tactegol. Dylid cymryd camau i nodi tystion plismona allweddol o'r cychwyn cyntaf. Mae’n bosibl y bydd rhagor o dystion plismona allweddol yn cael eu nodi wrth i ragor o wybodaeth ddod i’r amlwg yn ystod yr ymchwiliad.

18. Heblaw bod unrhyw arwydd y gallai tyst plismona allweddol fod wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau dwyn achos disgyblu, dylid ymdrin â nhw fel tyst. Os daw arwydd o'r fath i'r amlwg ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwiliad, dylid cofnodi hyn fel mater ymddygiad a chyflwyno hysbysiad o ymchwiliad.[3]

---

[2] Y ffactorau a nodir yn achos *R v Turnbull a Camelo* [1976] 63 Cr App R 132.
[3] Paragraff 19B, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Gweler canllawiau statudol SAYH am esboniad ychwanegol https://www.policeconduct.gov.uk/complaints-and-appeals/statutory-guidance

### Gwaharddiad ar ymgynghori

19. Gallai unrhyw ymgynghori rhwng tystion danseilio cywirdeb eu tystiolaeth, a niweidio hyder y cyhoedd yn yr ymchwiliad. Mae risg pe bai swyddogion yn trafod digwyddiad y gallai eu tystiolaeth fod wedi'i halogi, boed yn ymwybodol neu'n anymwybodol. Efallai y bydd rheithgor mewn treial troseddol neu gwest yn amau adroddiad gwir lle bu ymgynghori helaeth. O ganlyniad, mae tystion nad ydynt yn heddlu yn cael eu rhybuddio fel mater o drefn i beidio â thrafod y digwyddiad dan sylw naill ai cyn neu ar ôl iddynt roi eu hadroddiadau. Dylai'r un peth fod yn gymwys i dystion plismona.

20. Unwaith y bydd y tystion plismona allweddol wedi'u nodi, dylid eu cyfarwyddo i beidio â siarad (na chyfathrebu fel arall) am y digwyddiad â'i gilydd, nac unrhyw dystion posibl eraill, cyn ac ar ôl iddynt roi eu hadroddiadau, ac eithrio at y diben penodol a ddisgrifir ym maragraff 21. Dylai'r sawl sy'n rhoi'r cyfarwyddyd hwn wneud cofnod o bryd y rhoddwyd a chynnwys y cyfarwyddyd.

21. Yr unig eithriad cyfreithlon i hyn yw pan mae'n angenrheidiol i dystion plismona allweddol drafod y digwyddiad gyda'i gilydd oherwydd, a dim ond i'r graddau ei fod yn angenrheidiol er diogelwch aelodau'r cyhoedd neu swyddogion heddlu. Mae'n rhaid i'r graddau y mae trafodaeth o'r fath wedi digwydd, y cyfiawnhad dros wneud hynny a chynnwys y sgwrs honno, gael eu cofnodi gan y tystion plismona allweddol cyn gynted â phosibl. Dylid darparu gwybodaeth sy'n berthnasol i ddatrys materion gweithredol parhaus i swyddogion heddlu eraill nad ydynt yn dystion plismona allweddol.

### Sicrhau nad yw cyfrifon swyddogion wedi'u halogi gan dystiolaeth arall

22. Er mwyn ennyn hyder y cyhoedd, mae'n rhaid i'r heddlu ddangos eu bod wedi cymryd camau i sicrhau nad yw adroddiadau cychwynnol personol (gweler isod) a ddarparwyd gan dystion plismona allweddol wedi'u halogi o bosibl gan dystiolaeth o unrhyw ffynhonnell arall (ac eithrio gwybodaeth ffeithiol ddiamheuol, gweler paragraff 33 isod), neu esbonio eu rhesymeg dros beidio â gwneud hynny.

23. Ein ffafriaeth ar gyfer cyflawni hyn yw cadw tystion plismona allweddol ar wahân i'r eiliad y mae'n weithredol ddiogel i wneud hynny, tan ar ôl iddynt ddarparu eu hadroddiad personol cychwynnol. Dylid ystyried hyn ym mhob achos a chofnodi'r rhesymeg dros y penderfyniad.

24. Os mai'r penderfyniad yw peidio â gwahanu'r tystion plismona allweddol, mae'n rhaid cymryd mesurau eraill i sicrhau cywirdeb amlwg eu tystiolaeth a phroses dryloyw. Gall hyn gynnwys er enghraifft galluogi ymchwilwr SAYH i arsylwi ar y broses, gan gynnwys darparu cyfrifon, neu

ddefnyddio Fideo a Wisgir ar y Corff i gofnodi taith grŵp o dystion plismona allweddol o leoliad i broses ar ôl digwyddiad. Nid yw'r canllawiau hyn yn rhagnodi'r mesurau amgen y dylid eu cymryd. Mae'n rhaid dewis y mesurau mwyaf priodol i gyd-fynd â'r amgylchiadau unigol. Dylid cofnodi'r penderfyniad hwn a'r rhesymeg drosto.

25. Ni ddylai gwahanu swyddogion atal eu hanghenion lles rhag cael eu hystyried na'u hatal rhag cael mynediad at gymorth megis cydweithiwr nad oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad, cyngor cyfreithiol neu feddygol.

### Cyfrifon cychwynnol personol

26. Bydd disgwyl i bob tyst plismona allweddol gynorthwyo yn yr ymchwiliad i'r farwolaeth neu anaf difrifol drwy ddarparu adroddiad cychwynnol personol cyn gynted â phosibl. Mae'r cyhoedd yn gywir yn disgwyl i'r rhai sy'n dyst i farwolaeth neu anaf difrifol, neu ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag ef, tra'n gweithredu mewn swyddogaeth broffesiynol, gydweithredu'n llawn ag ymchwiliad, gan gynnig yr holl wybodaeth berthnasol mewn modd prydlon ac agored. Mae methu â gwneud hynny yn niweidio nid yn unig effeithiolrwydd yr ymchwiliad ond hefyd hyder y cyhoedd yng ngwasanaeth yr heddlu.

27. Nid oes dim yn y canllawiau hyn yn effeithio ar hawl swyddogion heddlu i gael cymorth gan bobl eraill nad ydynt yn gysylltiedig â'r digwyddiad, gan gynnwys yr hawl i gael cyngor cyfreithiol, cymorth gan gymdeithas staff a chyngor meddygol.

28. Derbynnir na ellir gorfodi neb i roi adroddiad a bod yn rhaid ystyried lles y rhai sydd wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â digwyddiad difrifol. Lle mae tyst plismona allweddol wedi'i archwilio gan weithiwr iechyd proffesiynol priodol a'i ardystio'n feddygol anaddas i ddarparu adroddiad, ni fydd yn ofynnol iddo/iddi ddarparu adroddiad nes ei fod/bod yn ffit i wneud hynny.

29. Mae gan swyddogion yr hawl i wrthod darparu unrhyw ddatganiad. Fodd bynnag, bydd penderfyniad i beidio â darparu adroddiad pan ofynnir iddynt wneud hynny yn cael ei nodi a gellir ei ystyried yn yr ymchwiliad a, lle bo'n berthnasol, mewn unrhyw achos dilynol.

30. Disgwylir adroddiad cychwynnol personol gan bob tyst plismona (heblaw nad yw'n ffit yn feddygol) cyn iddo/iddi fynd oddi ar ddyletswydd. Dylid rhoi'r datganiad statudol priodol ar ei ben (yn unol ag adran 9 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1967, a Rhan 16 o Reolau Gweithdrefn Droseddol 2015) a dylai gynnwys y canlynol o leiaf:

- manylion personol llawn y tyst[4];
- dealltwriaeth y swyddog o natur y digwyddiad, gan gynnwys unrhyw wybodaeth a dderbyniodd cyn a/neu yn ystod y digwyddiad
- y rôl a chwaraewyd ganddo/ganddi mewn perthynas â'r farwolaeth neu anaf difrifol, a/neu ddigwyddiad(au) cysylltiedig[5];
- ei benderfyniadau/phenderfyniadau mewn perthynas â'r digwyddiad neu ddigwyddiad(au) cysylltiedig, yn enwedig pan fydd wedi defnyddio grym a/neu wedi arfer unrhyw bwerau heddlu eraill;
- ei atgof/hatgof o'r digwyddiad a/neu ddigwyddiad(au) cysylltiedig (dylai fod ei gred/chred onest o'r ffeithiau, a'i resymau/rhesymau dros arddel cred o'r fath, gan gynnwys yr hyn a wnaeth a'r hyn y gwelodd eraill yn ei wneud).

31. Amcan yr adroddiad cychwynnol personol yw darparu digon o wybodaeth i roi darlun clir o'r holl ffeithiau a allai fod yn berthnasol i'r farwolaeth neu anaf difrifol ac i alluogi'r swyddog ymchwilio i ddadansoddi'r adroddiadau hyn er mwyn sicrhau tystiolaeth arall a allai fod yn berthnasol yng nghamau cynnar yr ymchwiliad (fel adalw tystiolaeth fforensig o leoliad y digwyddiad). Gall tystion plismona allweddol gyfeirio'n ôl at yr adroddiad cychwynnol personol wrth ddarparu unrhyw adroddiadau ychwanegol. Efallai y gofynnir iddynt hefyd ddarparu rhagor o wybodaeth ar ffurf cyfweliadau tystion neu ddatganiadau ychwanegol yn ystod yr ymchwiliad. Fodd bynnag, os darperir adroddiad cyntaf yn ddigon eglur ac nad yw'r swyddog yn dymuno ychwanegu ato, efallai na fydd angen cyfweliadau na datganiadau ychwanegol.

32. Yn dilyn marwolaeth neu anaf difrifol, ni ddylai'r swyddogion dan sylw weld unrhyw ffilm fideo a wisgir ar y corff nes eu bod wedi cwblhau eu cyfrif cychwynnol personol mewn perthynas â'r digwyddiad. Mae risg y gall gwylio ffilm fideo a wisgir ar y corff effeithio, yn ymwybodol neu'n anymwybodol, ar atgofion swyddog hyd yn oed am faterion canfyddiad, materion oddi ar y camera a chyflwr meddwl. Dylai'r cyfrif cychwynnol personol fod yn seiliedig ar atgof y swyddog ei hun o'r digwyddiad yn unig, heb ei effeithio gan unrhyw un neu unrhyw beth arall. Bydd y swyddog ymchwilio yn rhoi cyfle i'r swyddogion weld y ffilm fideo a wisgir ar y corff ar adeg briodol ar ôl darparu cyfrifon cychwynnol personol ac unwaith y bydd y fideo a wisgir ar y corff wedi'i lawrlwytho.

33. Cydnabyddir mewn rhai digwyddiadau na fydd swyddogion wedi gallu gwneud nodyn cyfoes o'u gweithredoedd neu benderfyniadau. Mewn achosion o'r fath, er mwyn eu cynorthwyo i lunio eu hadroddiad cychwynnol personol, gallant fod

---

[4] mewn amgylchiadau penodol gall SAYH gytuno ar ddefnyddio seiffrau, ond bydd y rhai sy'n ymchwilio i'r farwolaeth neu anaf difrifol yn cael enwau'r holl dystion plismona. Mae hyn at ddiben cynnal ymchwiliad effeithiol ac nid yw'n atal prif swyddog yr heddlu rhag cyflwyno sylwadau i'r llysoedd neu'r crwner ynghylch anhysbysrwydd mewn unrhyw achos.

[5] Bydd digwyddiadau cysylltiedig yn cynnwys unrhyw sesiynau briffio perthnasol a chyswllt blaenorol neu wybodaeth am yr ymadawedig neu'r parti a anafwyd.

y byddant yn cael gwybodaeth ffeithiol ddiamheuol, megis amseroedd a gymerwyd o CAD neu fanylion unrhyw sylwebaeth gofnodedig a roddwyd ganddyn nhw eu hunain yn ystod y digwyddiad.

34. Gellir pennu fformat y cyfrif cychwynnol personol yn dibynnu ar yr hyn sydd fwyaf priodol o dan yr amgylchiadau ond gall fod, er enghraifft, ar ffurf datganiad a ysgrifennwyd gan y swyddog, cyfweliad hunanweinyddol, profforma gyda chwestiynau i arwain yr adroddiad neu adroddiad ysgrifenedig a gymerwyd gan swyddog arall nad oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad. Beth bynnag yw'r fformat, dylai'r cyfrif cychwynnol personol gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.